Hysbysiad Newyddion

Buddsoddiad Sylweddol Arfaethedig i Burfa Valero Penfro

Arbed costau yw prif thema cynlluniau i sicrhau ymarferoldeb dyfodol y burfa

Penfro, 21 Tachwedd 2016 – Mae Valero Energy Ltd yn cyhoeddi ei fod wedi cyflwyno cynlluniau buddsoddiad arfaethedig o £100 miliwn i adeiladu Uned Gydgynhyrchu Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ym Mhurfa Penfro.

Bydd yr uned 45 megawat sy'n cael ei hystyried gan Valero'n darparu pŵer i'r burfa, yn ogystal ag ategu galw'r burfa am ager. Gyda diwydiant puro'r DU yn wynebu heriau niferus, nod y prosiect yw sicrhau bod Purfa Penfro – sy'n un o gyflogwyr blaenllaw de Cymru ac yn un o burfeydd mwyaf a mwyaf cymhleth Ewrop – yn dal i fod yn llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang gystadleuol.

Meddai Ed Tomp, Is-lywydd a Rheolwr Cyffredinol Valero, "Heddiw mae Valero wedi cyflwyno cynlluniau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru i adeiladu Uned Gydgynhyrchu ym Mhurfa Penfro. Byddai hwn yn fuddsoddiad sylweddol gan Valero ym Mhenfro, yn dangos ffydd enfawr yn yr hyn a gyflawnodd y gweithlu ers i'r cwmni gaffael y gwaith ym mis Awst 2011."

Aeth Tomp yn ei flaen, "Mae'r prosiect hwn wrth galon ein cynlluniau i gynnal ymarferoldeb y burfa yn yr hirdymor a helpu diogelu swyddi'r dyfodol yn y sector puro yn Sir Benfro a Gorllewin Cymru. Rydym yng nghyfnodau cynnar y cynnig hwn ac ni fyddwn yn gwneud penderfyniad terfynol cyn y flwyddyn nesaf. Byddwn yn dal i hysbysu rhanddeiliaid allweddol wrth i'r cynlluniau hyn symud ymlaen."

Daw i ben.

Yn y darlun: Purfa Penfro